

Overview

Arolwg

THE CONFERENCE PROCEEDINGS presented here represent part of an initiative by Cadw to find ways of sensitising owners of historic properties to the need to use traditional materials as far as possible in their maintenance. Participants included estate agents, surveyors, architects and owners, together with conservation specialists from Welsh local authorities and members of the voluntary sector.

The papers presented included case studies of practical building conservation.

Bill Davies opened the conference, and provides a general perspective on the significance of traditional buildings and their palettes of colour, texture and material. He emphasises that their character provides the essence of the character and form of older communities in Wales. We dilute this character at our peril. So often the form and materials of vernacular buildings reflect the local climate and geology, and an attempt to combine these influences with considerations of domestic economy and comfort. There are distinctive Welsh palettes in terms of style and materials; the sense of place that results from these palettes should be a catalyst for regeneration and a context for new build.

Bill analyses the Welsh context for traditional building. Likewise, when we consider a particular structure it is essential to analyse the building before determining how it should be repaired. We need to recognise the symbiotic relationship between design/form and materials.

Mike Garner recommends that if it's not broke, don't try and fix it. On the other hand, he also shows how subtle changes in form in order to adapt an historic structure to modern uses can help save important fabric and detail. Analysis is critical. It is increasingly a requirement before Cadw and the Historic Buildings Council will consider grant aid. If the approach is cautious, conversion to meet modern needs is not impossible, and important clues to effective restoration can often be found amidst the rubble.

Geraint Roberts again shows the importance of proper analysis in showing the way forward; this time in the context of some unusual Victorian buildings with concrete structures. The danger arises from ignorance and the inappropriate use in earlier interventions of incursor materials. These needed to be removed and a more appropriate treatment adopted.

The approach advocated by **Edward Holland** and **Colin Palmer** should be pervasive. They show how it is possible to look laterally at the issues and they dispel a number of myths regarding the building regulations. There is a need for similarly sympathetic specialists in other local authorities. A careful, historically informed, approach to design and adaptation mitigates against unnecessary changes prompted by the regulations.

Alan Gardner represents the radical thinking associated with SPAB. His is an highly sustainable approach that focuses on new uses to meet local needs. Analysis of the structure leads to a conservation plan. His contribution

MAE GWEITHGAREDDAU'R GYNHADLEDD a gyflwynir yma yn cynrychioli rhan o fentr gan Cadw i ganfod ffyrdd o wneud perchnogion adeiladau hanesyddol yn ymwybodol o'r angen i ddefnyddio, hyd y bo'n bosib, ddeunyddiau traddodiadol wrth eu cynnal a'u cadw. Ymysg y cyfranwyr ceir asiantwyr eiddo, syrfewyr, penseiri a pherchnogion, ynghyd ag arbenigwyr o awdurdodau lleol Cymru ac aelodau o'r sector gwirfoddol.

Mae'r papurau a gyflwynir yn cynnwys astudiaethau o achosion penodol o gadwraeth adeiladau ymarferol.

Bill Davies agorodd y gynhadledd, a chyflwyno persbectif cyffredinol o arwyddocâd adeiladau traddodiadol gyda'u paletau o liwiau, ansoddau a deunyddiau. Pwysleisiodd fod eu cymeriad yn cyfleu hanfod cymeriad a ffurf cymunedau hynafol Cymru. Peth peryglus i ni fyddai gwanychu'r cymeriad hwn. Yn aml iawn mae ffurf a deunyddiau adeiladau gwerinol yn adlewyrchu'r hin a'r ddaear leol, ac yn ymgais i gyfuno'r dylanwadau hyn gydag ystyriaethau o economeg a chysur cartref. Mae'r rhain yn baletau penodol Cymreig o safbwynt arddull a deunyddiau; dylai'r ymdeimlad o le sy'n tarddu o'r paletau hyn fod yn gatalydd ar gyfer adfywiad ac yn gyddestun ar gyfer ailadeiladu.

Mae **Mike Garner** yn argymhell yr arwyddair: os nad yw wedi torri, peidiwch â'i drwsio. Ar y llaw arall, mae hefyd yn dangos sut y gall newidiadau cyfrwys mewn ffurf wrth addasu hen strwythur ar gyfer defnydd modern helpu i achub deunyddiau a manylion pwysig. Mae dadansoddiad yn holl bwysig. Mae galw cynyddol am hyn cyn y bydd Cadw a'r comisiwn Henebion yn fodlon ystyried cynnig grant. Os bydd yr agwedd yn un gofalus, dydy addasu ar gyfer gofynion modern ddim yn amhosib, a cheir awgrymiadau pwysig ar sut i adfer llefydd yn effeithlon ymysg y rwbwl.

Mae **Geraint Roberts**, yntau, yn dangos pa mor bwysig yw dadansoddi er mwyn canfod y ffordd ymlaen; y tro hwn yng nghyd-destun rhai adeiladau Fictoriaidd anarferol gyda strwythurau concrid. Y mae'r peryglon yn tarddu o anwybodaeth a defnydd anaddas mewn cyfnod blaenorol o ddeunyddiau aliwn. Rhaid cael gwared ar y rhain a defnyddio triniaeth fwy addas.

Dylai'r agwedd a argymhellir gan **Edward Holland** a **Colin Palmer** gario'r dydd. Mae'n dangos sut mae edrych o ongl newydd ar y materion hyn ac yn chwala nifer o hen chwedlau ynglŷn â'r Rheolau Adeiladu. Mae angen yr un math o arbenigwyr gyda chydymdeimlad mewn awdurdodau lleol eraill. Mae agwedd ofalus, hanesyddol wybodus, tuag at ddylunio ac addasu yn arbed newidiadau diangen a awgrymir gan y rheolau.

Mae **Alan Gardner** yn cynrychioli'r meddwl radical a gysylltir gyda'r Gymdeithas Henebion. Mae ei agwedd yn un cynladwy iawn sy'n canolbwyntio ar gael defnyddiau newydd ar gyfer anghenion lleol. Mae dadansoddiad o'r strwythur yn arwain at greu cynllun cadwraeth. Mae ei gyfraniad ef yn pwysleisio fod ffiseg adeiladau hynafol a

emphasises that the physics of ancient and modern buildings is different. The kind of advice he gives needs to be widely available.

It may cost more to get the approach right, but false economies can lead to failure; initially higher expenditure can yield more economical whole life costs.

Greg Stevenson's is the voice of the practitioner as much as the academic. His love of vernacular is reflected in his insight into the magic of good local buildings. His are simple tactics that preserve character in circumstances of fragility. Compromises may be needed but practical results are possible. His projects emphasise the use of local labour and the enhancement of a local skill base. His recipe includes the need for awareness of historical significance and construction techniques – knowledge is the key to success and precipitate action is likely to be fatal. We must stick out for the right materials; we must lead by example; and we must design for conservation – a process that demands both lateral thinking and commonsense.

rhai modern yn wahanol. Dylai'r math o gyngor mae'n gynnig fod ar gael yn eang.

Efallai y bydd hi'n costio mwy i sicrhau agwedd gywir, ond gall arbedion ffug arwain at fethiant; mae gwario mwy ar y dechrau yn gallu golygu costau hirdymor rhatach.

Greg Stevenson yw llais yr ymarferwr yn gymaint â'r academydd. Mae ei gariad at y gwerinol yn cael ei adlewyrchu yn ei ddirnadaeth o ledrith adeiladau lleol da. Mae ei dactegau'n rhai syml sy'n cadw a chynnal cymeriad mewn sefyllfaoedd bregus. Efallai fod rhaid wrth gyfaddawdu ond gellir cael atebion ymarferol. Mae ei brosiect yn pwysleisio gwerth defnyddio llafur lleol a chynyddu'r gronfa o fedrau yn lleol. Mae ei feddyginiaeth yn cynnwys yr angen am ymwybyddiaeth o arwyddocâd a thechnegau adeiladu hanesyddol: mai gwybodaeth yw'r allwedd i lwyddiant tra bo gweithredu byrbwyll yn medru bod yn llethol. Rhaid inni fynnu'r deunyddiau cywir; rhaid inni arwain trwy roi esiampl; a rhaid inni ddylunio ar gyfer cadwraeth – proses sy'n gofyn meddwl ochrol a synnwyr cyffredin.

The nature of materials

Natur deunyddiau



◀ **Beddgelert** a tightly grouped village adjoining the river crossing, sheltered by tree cover and rising ground. Forms and materials are sensitive to location.

Beddgelert pentref cynulleidig ar lan croesfan yr afon; dan gysgod coed a thir sy'n codi; ffurfiau a defnyddiau sy'n cydweddu gyda'r lleoliad.

FOLK BUILDING MAY be considered the truly indigenous, and, I would suggest, the only definitive and identifiable Welsh style. It shows, essentially, an understanding of the people, culture, country and its climate – working with materials readily to hand.

Change was slow, but responsive to an increasing understanding and knowledge, mud-, timber- and stone-walled buildings with thatched roofs gradually changing to the more readily recognised stone- or brick-walled cottages with slated roofs of the nineteenth century, little affected by outside influences. Clearly some building types – gentry houses, civic buildings, and so on – have long been influenced by formal architectural styles, but until recently this had little effect on much of our built inheritance.

Today, no consistent manner of Welsh building can be perceived. Perception can, of course, be subjective, as evidenced by recent attempts, some ill-considered, to create a “Welsh architecture”. The relevance of folk building to future building can of course be reasonably questioned, in Wales and elsewhere. However, I would suggest that it is relevant, and that studies of regional building methods clearly show an environmental awareness that should be increasingly important today.

Relatively, the climate in Wales is wet and windy, and shelter is fundamental, suggesting a manner of building quite unlike that of the Mediterranean. Study of our older buildings and towns shows considerable evidence of

GELLIR HONNI MAI pensaernïaeth werin yw'r wir arddull frodorol Gymreig, ac mi awgrymwn i mai hi yw'r unig un benodol ac adnabyddadwy. Yn ei hanfod, mae'n gydnaws â'r Cymry, eu gwlad a'u hinsawdd – gan ddefnyddio deunyddiau sydd wrth law.

Yn araf y datblygodd pethau, ond mewn ymateb i gynydd mewn dealltwriaeth a gwybodaeth, graddiwyd o'r adeiladau gyda muriau mwd, pren a charreg gyda tho gwellt i rai mwy cyfarwydd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda'u muriau carreg neu bric a tho llechi, heb fawr o ôl dylanwadau allanol arnyn nhw. Wrth gwrs, mae rhai mathau o adeiladau – tai'r bendefigaeth, adeiladau dinesig, ac ati – wedi bod dan ddylanwad arddulliau ffurfiol, ond hyd yn ddiweddar ni chafodd hyn fawr o effaith ar y rhan fwyaf o'n treftadaeth bensaernïol.

Heddiw, does dim modd adnabod unrhyw arddull gyson o godi adeiladau yng Nghymru. Wrth gwrs, gall hyn fod yn fater goddrychol, fel y gwelwyd gan rhai ymdrechion diweddar anffortunos i greu “Pensaernïaeth Gymreig”. Gellir amau perthnasedd adeiladau gwerinol i bensaernïaeth y dyfodol, yng Nghymru fel mewn llefydd eraill. Er hynny, fe awgrymwn i ei fod yn berthnasol, a bod astudiaethau o ddulliau adeiladu rhanbarthol yn dangos fod yna ymwybyddiaeth amgylcheddol ddylai fod o bwys cynyddol heddiw.

Mae'r hinsawdd yng Nghymru yn gymharol wlyb a gwyntog, ac mae sicrhau cysgod a lloches yn hanfodol, a hynny'n gofyn am arddull adeiladu hollol wahanol i'r



1 Dolwyddelan Castle

superb relationship to site: the building truly enhances the landscape: in part the ruined structure appears almost natural, a stone outcrop

1 Castell Dolwyddelan

perthynas rhagorol gyda'r safle: mae'r adeilad yn dyrchafu'r tirwedd: i raddau, mae'r adfail fel pe tai'n rhan o natur, yn gerrig brig

2 Cottage near Dolwyddelan

building and nature in harmony; limewashed stone walling with slate roofing: a simple and functional solution

2 Bwthyn ger Dolwyddelan

yr adeilad mewn cytgorod gyda natur; muriau cerrig gwyngalch a tho llechi: ateb syml a dibennol

such understanding: the use of land-form to provide shelter, the selection of hardy materials, the tight grouping of buildings. This concern also shows in the growth of Victorian Cardiff, whose covered arcades provided a clear response to climate rare in Britain.

The use of materials in folk building was equally important, although perhaps not fully understood. Thick stone walls, often earth-banked externally, did provide shelter but also damp interiors; steep slate pitches shedding rain to the perimeter were more successful. The use of such materials became less common owing to the development of cheaper substitutes, allied to appar-

ently low transport costs.

Are our traditional materials still relevant? Decisions based on emotions, or instinct, must be questionable, as evidenced by the demise of the National Romanticism that was prevalent throughout Europe in the nineteenth century. The culture of Wales today differs enormously from that of even fifty or sixty years ago, and it continues to change. However, careful evaluation of all factors when selecting material, including proven reliability, short- and long-term costs, maintenance, historical, cultural and aesthetic considerations, employment and environmental issues, will often favour our native materials.

We must nevertheless be aware of and learn from technical and environmental advances, and changes in lifestyle aspirations. We need to respond appropriately to our specific time and place. While, to a degree, we have the knowledge and the technical ability to overcome any design decisions, surely environmentally this is not valid. At the same time we must recognise the dangers of cultural parochialism.

Too many recent attempts have, I believe, misunderstood and misused traditional materials, both functionally and aesthetically. Stone and slate can look superb or sadly be considered rather dull; it is in relationship to landscape they are most successful. Granite outcrops in Snowdonia, broken by native vegetation, give great visual delight and offer a guide to the use of such materials in building. The contrast of dark, sombre materials, particularly in North Wales, and seasonal changes in our land-

hyn geir ar y Môr Canoldir. O astudio ein hen adeiladau a threfi fe welir fod llawer o dystiolaeth fod pobl wedi sylweddoli hyn: lleoli adeiladau dan gysgod y tirwedd, dewis deunyddiau gwydn, codi tai ac ati yn agos at ei gilydd. Gwelir yr un peth adeg twf Caerdydd yn Oes Fictoria, pryd y codwyd cyfres o arcedau mewn ymateb i hinsawdd Prydain.

Roedd y dewis o ddeunyddiau mewn adeiladau gwerinol llawn mor bwysig, er na ddeallwyd hynny'n llawn. Roedd muriau cerrig trwchus, yn aml gyda gwrthgloddiau pridd tu allan iddyn nhw, yn cynnig cysgod ond hefyd yn llaith y tu fewn: roedd toeau llechi goleddfol serth yn gwasgaru'r glaw i'r perimedr yn fwy llwyddiannus. Edwinodd y defnydd o'r fath ddeunyddiau wrth i amnewidion rhad gael eu datblygu, ynghyd â chostau cludo ymddangosiadol isel.

A yw ein deunyddiau traddodiadol yn dal yn berthnasol? Rhaid amau penderfyniadau a seilir ar emosiwn neu reddf, fel y gwelwyd yn niflaniad y Rhamantiaeth Genedlaethol a ysgubodd trwy Ewrop yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae diwylliant Cymru heddiw yn hynod o wahanol i'r hyn oedd ef, hyd yn oed dim ond hanner can neu drigain mlynedd yn ôl, ac mae'n dal i newid. Er hynny, o gloriannu yn ofalus yr holl ffactorau, gan gynnwys dibynadwyath a chostau byr – a hirdymor, anghenion cynnal a chadw, ystyriaethau hanesyddol, diwylliannol ac esthetig a chwestiynau ynglŷn â chyflogaeth a'r amgylchedd, gall y dewis o ddeunydd yn aml ffafrio'r brodorol.

Beth bynnag am hynny, rhaid i ni fod yn ymwybodol o ddatblygiadau technolegol ac amgylcheddol, a newidiadau yn nisgwyliaidau pobl am eu ffordd o fyw, a dysgu trwyddyn nhw. Rhaid inni ymateb yn addas i ble a phryd yr ydym yn bodoli. Er bod gennym, i raddau, y wybodaeth a'r gallu technegol i oresgyn unrhyw broblemau ynglŷn â phenderfynu ar ddyluniad, nid yw hyn yn amgylcheddol ddilys mae'n debyg. Yr un pryd rhaid inni gydnabod peryglon plwyfoldeb diwylliannol.

I'm tyb i, mae gormod o'r ymdrechion diweddar wedi methu dirnad hyn ac wedi camddefnyddio deunyddiau traddodiadol, o safbwynt dibennol ac esthetig. Gall carreg a llechen edrych yn wych neu, gwaetha'r modd, braidd yn anniddorol... maen nhw fwyaf llwyddiannus mewn perthynas â'r tirwedd.

Mae'r brigiadau gwenithfaen yn Eryri, wedi eu bylchu gan lystyfiant brodorol, yn wledd i'r llygad ac yn arweiniad i'r defnydd o'r math yna o ddeunydd wrth godi adeiladau. Nodwedd arbennig o ddiadiad yw'r gwahaniaeth rhwng y deunyddiau tywyll, prudd, yn enwedig yn y gogledd, a'r newidiadau o dymor i dymor. Prin fod ein hymwybyddiaeth o natur fynyddig ein tirwedd yn mynd yn angof hyd yn oed yn ein trefi a dinasoedd. Mae'r dewis o ddeunyddiau, traddodiadol a modern, eu lliw, ansawdd a'u graddfa, a'u cydweddiad gyda'r tirwedd, yn ffactorau hanfodol i ni eu hystyried.

scape, offers considerable pleasure. The very nature of our mountainous landscape is rarely missing even from our urban scene. The choice of materials, traditional or modern, their colour, texture and scale, and their response to the land, are essential factors we need to consider.

Too often new buildings aim to dominate, to make a statement rather than settle into the environment, be it urban or rural. Few building types should be considered in this way. In Wales our building traditions are based on simplicity, the honest use of materials, and harmony with the landscape.

In our ever-changing western culture, the best modern architecture has made a significant contribution, but new building should, I believe, recognise regional variations. We deserve, I suggest, such continuity and individuality – without which, the poor quality of so much recent development will strangle the very consciousness and reality of our traditions, and destroy a landscape that has been so successfully nurtured by past generations.☺☺

Yn rhy aml, mae adeiladau modern yn anelu at dra-arglwyddiaethu, i honni rhywbeth, yn hytrach nag ymsefydlu yn yr amgylchedd, boed wledig neu drefol. Ychydig o fathau o adeiladau ddylai gael eu hystyried yn y ffordd yna. Yng Nghymru, mae'n traddodiadau adeiladu wedi'u seilio ar symrlwydd, defnydd eglur o ddeunyddiau, a bod mewn cytgord gyda'r amgylchedd.

Yn ein diwylliant cyfnewidiol yn y Gorllewin, mae'r bensaerniaeth fodern orau wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol, ond fe ddylai adeiladau newydd, yn fy marn i, gydnabod gwahaniaethau rhanbarthol. Rydym yn haeddu, dybiwn i, y fath ddilyniad yn ogystal ag unigolrwydd – heb y rhain fe fydd ansawdd gwael cymaint o ddatblygiadau diweddar yn tagu yr union ymwybyddiaeth a diriaeth ein traddodiad, a distrywio tirwedd a feithriniwyd mor effeithiol gan y cenedlaethau a fu.☺☺



Plas Menai, National Sailing Centre for Wales (Bill Davies)

an attempt to respond to the site and to the regional building heritage: broken form aims to reduce scale and reflect mountainous backcloth: use of natural materials

Plas Menai, Canolfan Hwyllo Cenedlaethol Cymru (Bill Davies)

ymgais i ymateb i'r safle ac i dreftadaeth adeiladau'r ardal: ffurfiau tor sy'n lleihau graddfa'r lle ac yn adlewyrchu'r cefndir mynyddig: defnydd o ddeunyddiau naturiol